# Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd Cymru
# Ymchwiliad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
# Tystiolaeth ysgrifenedig Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y '*Rhwystrau i weithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus*'

## 1. Cyflwyniad

1.1 Cyflwynir y dystiolaeth ysgrifenedig hon i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd cyn sesiwn dystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 11 Ionawr 2021. Mae'r cyflwyniad yn nodi barn Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch y rhwystrau i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus.

1.2 Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bodoli i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl Cymru. Rydym yn gweithio yn lleol, yn genedlaethol a chyda phartneriaid, ar draws cymunedau gyda'r nod o sicrhau dyfodol iachach i Gymru. Ein saith blaenoriaeth strategol/amcan llesiant yw: Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd; Gwella llesiant meddyliol a chydnerthedd; Hyrwyddo ymddygiad iach; Sicrhau dyfodol iach ar gyfer y genhedlaeth nesaf drwy ganolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar; Diogelu'r cyhoedd rhag heintiau a bygythiadau amgylcheddol i iechyd; Cefnogi gwaith i ddatblygu system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar; a Meithrin a defnyddio gwybodaeth a sgiliau i wella iechyd a llesiant ledled Cymru.

1.3 Fel y sefydliad iechyd cyhoeddus cenedlaethol i Gymru, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi chwarae rôl allweddol mewn cefnogi'r cyhoedd, Llywodraeth Cymru, a'r system ehangach yn ystod ein hymateb diogelu iechyd digynsail i bandemig y coronafeirws. Rydym wedi arwain y system drwy gyngor iechyd cyhoeddus arbenigol; drwy wybodaeth amserol; a thrwy gefnogi elfennau allweddol Strategaeth Profi Olrhain Diogelu Llywodraeth Cymru.

1.4 Rydym hefyd wedi gwneud gwaith sylweddol ynghylch goblygiadau ehangach COVID-19 i iechyd y boblogaeth, fel iechyd a llesiant meddyliol, a ddatblygwyd drwy feysydd gwaith allweddol gan gynnwys ein Harolwg Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd, ynghyd â'r gwaith ymchwil, gwerthuso a sganio'r gorwel rhyngwladol ehangach. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae gwasanaethau a swyddogaethau iechyd cyhoeddus hanfodol wedi ailddechrau'n raddol.

1.5 Mae'r ymateb diogelu iechyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnwys defnyddio adnoddau llawn y sefydliad. Dyma fu ein prif flaenoriaeth ers dechrau 2020 a bydd yn parhau felly wrth i'r pandemig a'n hymateb ddatblygu drwy weddill y flwyddyn ac i 2021.

## 2. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf a'i goblygiadau

2.1 Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydnabod bod y Ddeddf yn hanfodol i wella iechyd a llesiant y boblogaeth, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Rydym yn credu bod y Ddeddf wedi rhoi fframwaith inni ar gyfer mabwysiadu dull mwy trawsnewidiol o ran y ffordd rydym yn gweithio.

2.2 Er mwyn ein cynorthwyo i gyflawni'r newid sylfaenol sy'n ofynnol o dan y Ddeddf, yn 2016, fe wnaethom sefydlu'r Hyb Iechyd a Chynaliadwyedd. Diben yr Hyb yw ein cefnogi'n fewnol i ymwreiddio'r pum dull o weithio a'r amcanion yn y Ddeddf yn effeithiol. Yn allanol, mae'r Hyb hefyd yn rhoi cefnogaeth i'n partneriaid o ran gweithredu'r Ddeddf ac yn hysbysu a chefnogi'r gwaith o ddatblygu polisi mewn modd cynaliadwy a gweithio ar draws sectorau. Mae'r Hyb yn cefnogi'r sefydliad mewn pum maes gwaith eang:

- *Arwain a hysbysu,* er enghraifft, drwy sefydlu'r gweithgor mewnol Eiriolwyr Caffael i sicrhau bod cynaliadwyedd yn rhan allweddol o waith Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- *Cynyddu cyrhaeddiad ac effaith drwy gydweithio* – er enghraifft, arweiniodd yr Hyb y gwaith o ddatblygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, i alluogi mwy o gydweithio ac i ychwanegu gwerth at y dulliau presennol o weithio.
- *Datblygu ac arloesedd* – er enghraifft, cefnogi Asesiad o'r Effaith ar Iechyd mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd er mwyn nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol hyn, y poblogaethau a allai gael eu heffeithio, ac unrhyw gyfleoedd posibl yn y dyfodol.
- *Monitro ac adrodd* – er enghraifft, gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Archwilydd Cyffredinol i gofnodi sut mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu ei strategaeth hirdymor a'i amcanion llesiant.
- *Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru ac Ewrop* – er enghraifft, bod yn bartner yn y Rhaglen Gweithredu ar y Cyd ar Gydraddoldeb Iechyd, gan weithio gyda Phartneriaid Ewropeaidd i rannu gwybodaeth am ymgorffori dull Iechyd ym mhob Polisi drwy'r Ddeddf.

2.3 Mae ein prosesau sefydliadol yn ein galluogi i ymgorffori'r dulliau o weithio yn ein rhaglenni gwaith a'n prosiectau drwy'r sefydliad cyfan, ac rydym yn casglu ein gwaith ar ddatblygu cynaliadwy fel rhan o'n gwaith o gofnodi perfformiad y sefydliad.

2.4 I gefnogi ein gwaith o weithredu'r Ddeddf, yn 2017, fe wnaethom gynnal arolwg staff i fesur ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf, a'r ymgysylltiad â hi. Ar y pryd, fe wnaethom nodi bod 23% o'r staff yn hyderus eu bod yn deall beth oedd y Ddeddf yn ei olygu i'w rôl hwy a'r sefydliad ac roedd 56% o'r staff yn teimlo eu bod yn eiriolwyr gweithredol o'r Ddeddf a'u bod yn cael cyfleoedd i'w rhoi ar waith. Rhoddodd yr arolwg gipolwg inni hefyd ar i ba raddau yr oedd y staff yn teimlo bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn arddangos y pum ffordd o weithio ac fe

wnaethom hefyd nodi bod dealltwriaeth dda o'r Ddeddf o fewn ein swyddogaethau corfforaethol allweddol. Fe wnaethom gynnal yr arolwg eto ym mis Chwefror 2020 i ganfod a oedd pobl o fewn y sefydliad yn deall y Ddeddf ac a oedd wedi'i hymgorffori yn y sefydliad. O blith y rhai a ymatebodd, roedd gan 88% ymwybyddiaeth o'r Ddeddf ac roedd dros dri chwarter ohonynt wedi clywed am yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Mewn perthynas â'r pum ffordd o weithio, adroddodd y staff eu bod yn teimlo bod cynnydd wedi'i wneud ers yr arolwg diwethaf ym mhob un o'r pum maes, gyda'r cynnydd mwyaf yn cael ei wneud mewn perthynas â'r tymor hwy.

2.5. Mae amrywiaeth o waith Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i adlewyrchu yn 'Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol' y Comisiynydd, gan gynnwys:

- Y prosiect 'Ein Lle Ni' lle y trosglwyddwyd 550 o'r staff o 10 lleoliad ledled De-ddwyrain Cymru i Rif 2 Capital Quarter, Caerdydd i fan gweithio cynaliadwy a chydweithredol, gydag arbedion carbon sylweddol.
- Datblygiad yr e-ganllawiau 'Byddwch y Newid' i gynorthwyo cyrff cyhoeddus a'u staff i gyfrannu at amcanion llesiant Cymru drwy 'gamau cynaliadwyedd' yn y gweithle
- Y rhaglen cynaliadwyedd amgylcheddol fewnol i hybu gweithio cynaliadwy a lleihau ôl-troed carbon y sefydliad.
- Gwaith Cyfarwyddiaeth Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd ar 'Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant', gan gynnwys y gwaith gydag Oxfam Cymru ar hyfforddiant dinasyddiaeth fyd-eang ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol.
- Y berthynas gyda Celfyddydau Cymru i sicrhau gwaith mwy integredig a chydweithredol ar ddiwylliant ac iechyd yng Nghymru.

## 3. Yr adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus roi'r Ddeddf ar waith a pha mor effeithiol y maent wedi cael eu defnyddio

3.1 Bu Iechyd Cyhoeddus Cymru yn defnyddio adnoddau Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (e.e. ymarfer hunan fyfyrio ac 'Y Gallu i Greu'), Swyddfa Archwilio Cymru (e.e. gweithdy ar weithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy), a Llywodraeth Cymru (e.e. canllawiau ar y Ddyletswydd Fioamrywiaeth a datgarboneiddio sector cyhoeddus Cymru).

3.2 Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd wedi datblygu adnoddau 'Byddwch y Newid' i dargedu newid ymddygiad ar lefel unigolion a thimau yn y gweithlu. Mae'r adnoddau hyn hefyd wedi cynorthwyo i godi rhagor o ymwybyddiaeth o'r Ddeddf ac fe'u rhannwyd â sefydliadau partner.

## 4. Y cymorth y mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei roi i gyrff cyhoeddus

4.1 Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cael budd o adnoddau Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (fel yr amlygwyd uchod). Mae'r sefydliad hefyd yn cydweithio â'r Comisiynydd ar sawl maes gwaith, er enghraifft swydd ar y cyd sy'n cefnogi dulliau hirdymor o weithio. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd wedi cymryd rhan yng nghynadleddau a chyfarfodydd bord gron y Swyddfa ar gyfer cyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid ehangach ynghylch amrywiaeth o themâu, yn ogystal â chynhyrchu adnoddau ar y cyd, fel y pecyn cymorth Tri Gorwel. Rydym hefyd wedi cefnogi Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol ar draws sectorau y Comisiynydd, sy'n rhoi cyfleoedd i bobl ifanc wella eu sgiliau ac yn datblygu cronfa o arweinwyr ifanc y dyfodol yng Nghymru.

## 5. Rôl arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru

5.1 Mae polisïau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar y Ddeddf ac wedi'u halinio â hi. Ynghyd â deddfwriaeth arall yng Nghymru, fel Deddf Iechyd y Cyhoedd, y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, a'r Ddeddf Gynllunio, rydym yn credu bod gan Gymru gyd-destun polisi galluogol er mwyn diogelu a gwella iechyd a llesiant pobl Cymru.

5.2 Drwy *Ffyniant i Bawb*, mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu ei hymrwymiad i gynnwys iechyd ym mhob polisi, drwy fynd i'r afael â'r dylanwadau cymdeithasol ac economaidd ehangach ar iechyd a llesiant, fel addysgu a chyflogadwyedd, magu plant a thai. Mae *Cymru Iachach* yn darparu dull system gyfan o ymdrin ag iechyd a llesiant, gan gynnwys atal salwch, cysoni â'r saith nod llesiant a'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

5.3 Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi defnyddio'r adnoddau a'r canllawiau a luniwyd gan Lywodraeth Cymru i'n cynorthwyo i ymgorffori'r Ddeddf yn ein gwaith. Er enghraifft, rydym wedi dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu ein cynllun bioamrywiaeth (mewn ymateb i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru)). Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i fonitro'r canllawiau a'r cymorth sy'n cael ei ddarparu ar gyfer cyrff cyhoeddus i gyfrannu at gynllun carbon isel Llywodraeth Cymru, '*Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel'.*

## 6. Unrhyw rwystrau eraill rhag gweithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus (e.e. Brexit, Covid-19, ac ati.)

### 6.1 COVID-19

6.1.1 Ers mis Chwefror 2020, blaenoriaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru (ynghyd â blaenoriaeth cyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys Byrddau Iechyd) yw'r ymateb acíwt i COVID-19 i ddiogelu iechyd a llesiant y boblogaeth. O ganlyniad, mae angen i'r sefydliad fyfyrio ar yr hyn sy'n ymarferol yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod, gan gynnwys o ran cefnogi'r system iechyd ehangach yng Nghymru er mwyn gweithredu ac ymgorffori'r Ddeddf yn eu gwaith.

Fodd bynnag, mewn perthynas ag adferiad sefydliadol, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sicrhau ei fod yn ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei waith ac yn argymell (ac yn ymarfer) gwaith adfer gwyrdd a theg.

### 6.2 Brexit

6.2.1 Ym mis Ionawr 2019, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru asesiad o'r effaith ar iechyd yn sgil 'Brexit', sy'n archwilio'r effeithiau posibl ar iechyd a llesiant y bobl sy'n byw yng Nghymru yn y tymor byr, canolig a hir. Gallai ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit gael effaith sylweddol ar lesiant y boblogaeth a gwaethygu effeithiau'r pandemig ymhellach. Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith ar gyfer ymateb i Brexit (a'r pandemig) a'r gwaith adfer, er bod hyn yn broblemus oherwydd bod y capasiti staff presennol yn canolbwyntio ar ymateb acíwt i'r pandemig.

### 6.3 Cylchoedd cynllunio a chyllido yn y tymor byr

6.3.1 Mae angen i gylchoedd cynllunio a chyllido gynnwys ffocws hirdymor, gyda cherrig milltir clir i wella atebolrwydd. Dylai hyn hefyd greu mwy o gyfleoedd ar gyfer cydweithio. Mewn ymateb i'r Ddeddf, datblygodd Iechyd Cyhoeddus Cymru strategaeth hirdymor yn cwmpasu 2018-30 ac yn dod â'r saith blaenoriaeth strategol ynghyd i wella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

## 7. Sut mae sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus yn y dyfodol

7.1 Yng ngoleuni COVID-19, mae'n bosibl y bydd yn angenrheidiol ailedrych ar y gofynion adrodd (ar draws deddfwriaethau) a rhaglenni (e.e. ffrydiau gwaith Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol) ar gyrff cyhoeddus, er mwyn galluogi i'r capasiti (llawer mwy cyfyngedig) gael ei gyfeirio tuag at ymateb i'r Ddeddf, gan gynnwys gweithredu'r argymhellion yn adroddiadau'r Comisiynydd a'r Archwilydd hyd yn hyn.

7.2 Mewn cydweithrediad â Phrifysgol Kingston, fe wnaethom gyhoeddi 'Implementing the Sustainable Development Principle' yn ddiweddar, a nododd bum argymhelliad ar sail tystiolaeth ar gyfer gweithredu'r pum ffordd o weithio a chyflawni'r nodau llesiant, yn ogystal â phump o ymarferion dyddiol i unigolion eu defnyddio, o fewn timau, ar draws sefydliadau a systemau.

7.3 Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i weithio i ymgorffori'r newid mewn diwylliant sydd ei angen er mwyn gweithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus. Drwy arolwg staff diweddar, rydym wedi nodi'r cyfleoedd i gynyddu'r ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth o rolau timau a chyfraniadau at y Ddeddf; cryfhau ein gwaith amlasiantaeth i ddatblygu prosiectau ar y cyd yn y tymor hwy, prosiectau ar y cyd sy'n arloesol, yn fwy integredig ac sy'n canolbwyntio mwy ar anghenion ein poblogaeth; a datblygu adnoddau ychwanegol yn seiliedig ar agweddau

cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ar gynaliadwyedd, wrth barhau â'n gwaith ar gynaliadwyedd amgylcheddol.

7.4 Mae'n bwysig gwneud achos cymhellol dros fuddsoddi mewn gwaith atal a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl, gan ddefnyddio'r cryfderau a'r asedau sydd gan bobl a lleoedd i'w cyfrannu, gan gynnwys cymunedau lleol. Yn 2016, cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru dystiolaeth ymchwil a barn arbenigol i gefnogi'r gwaith o atal salwch a lleihau anghydraddoldebau yn ei adroddiad 'Gwneud Gwahaniaeth'. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i wneud gwaith i gefnogi buddsoddiad mewn gwaith atal, drwy waith Canolfan Gydweithredu Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant.